**COPI DRAFFT**

Cofnodion Cyngor nos Iau Medi 8 2022 am 7pm

Presennol: E.R.Noble, L.Roberts, C.Brewer, C.L.Price, T.W.Jones, M.L.Hughes, M.Skerret, I.W.Griffiths.

Y Frenhines. Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth diweddar y Frenhines.

Datgan Diddordeb. Dim.

Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 16.6.22, cynnig M.L.Hughes, cefnogi C.L.Price.

Heddlu. Prin yw ymweliadau gan yr Heddlu i'r ardal.

Yr A470. Loriau trymion yn parhau i deithio drwy'r ardal, tebyg y byddant yn dal i wneud hynny am beth amser.

Cyngor Sir. Clerc i anfon i ofyn i'r Cyngor ddod i gael golwg ar gyflwr Allt Penrhiw i geisio datrus y broblem gyda dŵr yn llifo'n barhaol i lawr yr allt. Hefyd i godi'r sefyllfa ynglŷn ag Allt Cyfyng unwaith yn rhagor, mae pobl leol yn defnyddio'r ffordd yn yr ardal ac mae gwir angen gwella wyneb y ffordd. Holodd M.Skerret tybed a fuasai'n bosibl gofyn i'r Cyngor Sir i osod arwydd 'No through road' ar y 'ffordd gefn' heibio'r Orsaf ym Mhont y Pant i geisio rhwystro gyrrwyr rhag dod yno a chreu trafferthion i'r preswylwyr.

Llwybrau. Roedd y Clerc wedi anfon at Iolo Tegid i gwyno am y sefyllfa ger Granllyn gan bwysleisio bod gyrrwyr yn gadael eu ceir yno ger yr A470 ac yn creu sefyllfa beryglus. Derbyniwyd atebiad Tim Barnes o Swyddfa Llywodraeth Cymru yn cadarnhau eu bod wedi cysylltu â'r Asiant Cefnffyrdd i ofyn iddynt ymchwilio i'r mater a thrafod hefo Andrew Roberts hefyd. Clerc i gysylltu ag Andrew eto.

Pontydd yn yr Ardal. Dim atebiad gan Bryn Shiland, dywedodd Liz Roberts ei bod yn deall fod y cynlluniau bron yn barod i'w hail gyflwyno i'r Parc Cenedlaethol, nodwyd fod angen tynnu'r arwydd 3 Tunnell ger ceg ffordd Roman i lawr, cytunodd Liz i ofyn i Bryn drefnu hyn, hefyd fe wnaiff hi holi am y sefyllfa gyda'r pontydd eraill yn yr ardal..

Cynlluniau.

Ty'n Afallen - dim penderfyniad

Bodygroes - dim penderfyniad

Pont Chwarel y Fedw - dim penderfyniad

3 Bron Llan - Dim gwrthwynebiad.

Cynllun Fferm Tanrallt - dim gwrthwynebiadau.

Llifogydd. Cadarnhad gan Liz Roberts for K.Phillips yn dod i gyfarfod â hi yn y pentref.

Scottish Power. Rhaid aros i glywed am yr amserlen ar gyfer y torri coed yn ardal Hafod Gwenllian a Bwlch Gorddinan.

Sgip. Ystyried trefnu sgip i'r ardal ym mis Hydref/Tachwedd.

Toiledau. Cafwyd digwyddiad anffodus yn y toiledau yn ddiweddar pan fu iddynt 'flocio' gan greu trafferthion a carthion yn gorlifo yn yr adeilad ac yng nghefn yr adeilad. Gweithiodd Zac yn arbennig o dda gyda chymorth Dave Foster i glirio'r safle. Penderfynwyd i gysylltu a chwmni GEWS a bu raid iddynt alw 2 waith i ddatrus y broblem yn iawn. Bu raid cael camerau

arbennigol i weld lle roedd y broblem. Bu rhaid cau y toiledau am gyfnod i sicrhau fod y nam wedi clirio'n llwyr. Awgrymodd L.Roberts i'r Clerc y dylai gysylltu â Gary Williams CBSC i drafod y sefylllfa ac awgrymu iddo ddod i gael golwg ar safle'r toiledau.

Y Gofgolofn. Yr Heddlu ddim a diddordeb mewn dod i gael gweld y difrod, cytunwyd i ofyn i E.Roberts roi amcan bris i ail godi'r piler - mae o eisoes am drwsio'r wal wrth y giat i'r Ddôl, derbyniwyd ei amcan bris ar gyfer y waliau ac fe wnaiff E.Noble fynd i'r chwarel i gael cerrig addas. Clerc wedi gweld I.Davies ynglŷn a chael trwsio'r gwaith 'cast' eto.

Y Fynwent. Y gofalwr wrth ei waith ac mae'r tiroedd yn edrych yn dda.

Gwaith yn y Fynwent. Y gwaith torri coed yn cymryd lle ac mae'r safle yn edrych yn dda iawn. Trafodwyd rhai materion perthnasol i hyn, gwnaiff C.Brewer gyfleu yr anghenion i Iolo Hughes. Mae llawer o waith yn mynd ymlaen ar gyfer paratoi i gael Grant Ardal Wledig CBSC ar gyfer y gwaith ar cwt hers a thiroedd y fynwent a diolchwyd i Connie a Liz sydd yn arwain ar hyn, maent wedi trefnu i gael amcan gyfrifon ar gyfer yr hyn sydd ei angen. Trafodwyd yn fanwl ynglŷn â gwahanol agweddau o'r gwaith gyda pawb yn mynegi barn agored.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig M.L.Hughes, cefnogi I.Griffiths a pawb o blaid.

Gwefan y Cyngor. M.Skerrett wedi bod yn trafod gyda Nick, Clerc i anfon y cofnodion 'drafft' ato i'w rhoi ar y wefan.

Sgip. Mae'n amlwg na fu trafferthion gyda'r sgip ym mis Awst a bod defnydd da iawn wedi ei wneud ohoni ar y diwrnod. Cytunwyd i ystyried trefnu skip ym mis Hydref/Tachwedd.

Cyflymder ceir. Tawel yw'r sefyllfa cytunwyd i gadw golwg ac adolygu mewn 6 mis.

Dŵr Cymru. Gohebiaeth ganddynt yn cadarnhau eu bod yn deall fod y Cyngor bellach yn berchen ar y toiledau ac y byddant yn anfon bil bob chwe mis i'r Cyngor.

Llysiau'r Dial (Knotweed). Derbyniwyd llythyr yn mynegi pryder am y sefyllfa gyda'r tyfiant hwn ger Aberbeinw ac ar gyfer Maes y Braich. Clerc wedi anfon y gŵyn i sylw'r Parc Cenedlaethol ac wedi derbyn atebiad yn cadarnhau nad oes ganddynt Bwerau i'w reoli oni bai ei fod yn lledaenu o'r man hwnnw i diroedd eraill, bryd hynny byddai yn droseddol a dylid ei ddwyn i sylw Cyfoeth Naturiol Cymru. Gwnaiff T.W.Jones ymholiadau o ran pwy sy'n berchen ar y tir.

Cyfarfod nesaf. Cytunwyd i gyfarfod nesaf nos Iau Hydref 6ed, Clerc i drafod y lleoliad.